



Adroddiad Arolygu

Clwb Gofal Tywi

**Clwb Rygbi Llandeilo
Cae William
Llandeilo
Caerfyrddin
SA19 6RS**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/07/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Clwb Gofal Tywi

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
Darparwr Cofrestredig	Gofal Plant Cyf
Lleoedd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt gydb berthnasau cadarnhaol â'r staff gofal ac maent yn meithrin cyfeillgarwch cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn cael rhywfaint o ddewis ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir iddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith er mwyn diogelu llesiant y plant a'i hybu. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgarn. Maent yn deall anghenion unigol y plant ac yn eu diwallu.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff gofal wedi nodi risgiau diangen i'r plant a'u dileu cymaint â phosibl. Mae dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae'r adnoddau yn addas o ran dyluniad a chyflwr, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Mae datganiad o ddiben clir gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maent yn cefnogi ac yn herio pawb i wneud eu gorau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio diogel a thrylwyr i wneud yn siŵr bod digon o staff gofal cymwysedig a phrofiadol ar gyfer nifer y plant sy'n cael gofal.

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y clwb, a gallant arwain eu chwarae eu hunain. Mae'r plant yn mynd ati'n hyderus i ddechrau chwarae gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff gofal pan fo angen. Gwelsom y plant a'r staff yn cael sgysiau cyfeillgar a chefnogol, ac roedd yn amlwg bod y staff yn gwranddo ar y plant ac yn ystyried eu safbwyntiau y rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd rhai o'r plant wrthym nad ydynt bob amser yn cael gwneud yr hyn yr hoffent ei wneud, a chlywsom rywfaint o drafod ynghylch pryd y gallent wneud rhai gweithgareddau.

Mae'r plant yn fodlon ac maent yn setlo'n gyflym am fod y staff gofal yn eu croesawu wrth iddynt gyrraedd. Mae ganddynt gydberthnasau agos ag oedolion sy'n gyfarwydd iddynt, ac mae hynny'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae bron pob un o'r plant yn fodlon chwarae ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd nifer o'r plant wrthym eu bod yn mwynhau'r cyfle i gwrdd â ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff gofal, a chlywsom y plant yn rhannu gwybodaeth am eu teuluoedd a gwyliau sydd ar ddod gyda nhw. Mae plant o grŵp oedran eang yn defnyddio'r gwasanaeth ac, ar y cyfan, mae'r plant hŷn yn cefnogi'r plant iau ac yn cael eu gweld fel modelau rôl. Mae'r plant yn glir o ran sut y disgwylir iddynt ryngweithio, a chaiff y plant hŷn eu hatgoffa am ymddygiad afreolus neu redeg dan do, pan fydd plant iau i'w hystyried.

Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth dda o weithgareddau ysgogol a diddorol. Mae llawer o'r plant iau yn manteisio ar gyfleoedd i dynnu lluniau a lliwio, defnyddio gleiniau Hama a chwarae gemau pen bwrdd, tra bo'r plant hŷn yn mwynhau chwarae pŵl neu gymryd rhan mewn gemau tîm â phêl ar y cae rygbi cyfagos. Roedd y plant yn golchi ac yn diheintio eu dwylo'n rheolaidd yn ystod y sesiwn, yn ogystal â chyn amser byrbryd ac amser bwyd. Cymraeg yw'r unig iaith a ddefnyddir yn y lleoliad.

Mae amrywiaeth dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau llesiant y plant. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Mae polisi amddiffyn plant ar waith a dywedodd y personau â chyfrifoldeb wrthym eu bod yn hyderus i werthuso unrhyw risgiau i blant a chyfeirio achosion at yr awdurdod priodol petai angen. Bydd y staff gofal yn cyfrif y plant yn rheolaidd pan fyddant yn gadael yr adeilad, pan fyddant allan yn yr awyr agored a phan fyddant yn dod yn ôl i mewn. Mae'r staff gofal yn glanhau pob arwyneb cyn i'r plant eistedd i fwyta eu byrbryd a'u cinio. Mae gweithdrefnau glanhau wedi cael eu hatgyfnerthu ers y pandemig er mwyn cadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r staff gofal yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, gan eu helpu i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol. Maent yn garedig ac yn cyfarch y plant yn llawen pan fyddant yn cyrraedd. Maent yn defnyddio technegau tynnu sylw yn llwyddiannus ac yn canmol y plant yn aml, er enghraifft, am dacluso neu gwblhau gweithgaredd. Mae'r staff gofal yn anwybyddu unrhyw ymddygiad negyddol a ddangosir gan y plant ac yn aros yn ddigynnwrf. Maent yn atgoffa plant hŷn i fod yn ystyriol o eraill ac i beidio â rhedeg dan do. Maent yn canmol ac yn annog y plant mewn modd annwyl, ac yn annog y plant i fod yn gwrtais ac i ddweud diolch. Mae'r staff gofal yn mynd ati'n dyner i annog y plant sydd ar eu pen eu hunain i ymuno ag eraill neu'n cynnig chwarae gyda nhw.

Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn darparu awyrgylch gofalgarg sy'n meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol am eu bod yn gwybod hanes y plant a rennir gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru ac yn gweithredu arnynt. Mae'r staff gofal yn hybu datblygiad y plant drwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Er enghraifft, ymweliadau gan y frigâd dân a'r heddlu, mynd am dro i gastell a pharc lleol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gweithgareddau awyr agored ar y cae rygbi a gweithgareddau coginio. Mae'r staff gofal yn rhoi adborth ar lafar clir i'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwyllo'n dda. Nid oes unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored, ac mae'r staff gofal yn cwblhau asesiadau risg yn llwyddiannus. Mae pob ymwelydd yn llofnodi pan fydd yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad. Mae'r staff gofal yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu hunain a rhai'r plant yn ddyddiol. Caiff ymarferion tân eu cynnal, ond ni chaiff unrhyw fanylion eu cofnodi, megis faint o amser a gymerir i adael yr adeilad nac unrhyw beryglon a nodir. Mae'r holl gyfarpar trydanol a gwresogi wedi cael eu harchwiliadau gwasanaethu blynyddol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd sy'n addas i'r plant. Mae'r plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas yn yr adeilad. Gall y plant gael gafael ar gyfarpar ac adnoddau, gyda goruchwyliaeth gan oedolyn. Mae ardal awyr agored fawr ar gael iddynt hefyd, sy'n cynnwys y cae rygbi a chriced.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ar gael i'r plant. Mae digonedd o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Caiff yr holl deganau a gemau eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da, a chaiff rhai eu storio o fewn cyrraedd y plant. Mae'r cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r clwb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hybu canlyniadau da i'r plant. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae arferion cyson ar waith ym mhob rhan o'r lleoliad ac mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwnaethant ddiweddarau'r datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth, ac mae rhai wedi bod yno ers sawl blwyddyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn holi'r plant fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer y clwb haf. Gwelsom yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal a oedd yn cynnwys barn y plant, y rhieni, y staff ac asiantaethau eraill; roedd pob un ohonynt yn canmol y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn effeithiol drwy eu goruchwyllo'n rheolaidd a chynnal arfarniadau blynyddol ar ddiwedd yr haf. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau ategol cywir a chaiff gwiriadau cadarn eu cynnal cyn cyflogi. Mae'r holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

Mae'r rhieni'n cael gwybod am ddiwrnod eu plentyn drwy adborth ar lafar. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â rhiant wrth i'w blentyn gyrraedd, ac mae'r staff yn gadarnhaol ac yn garedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn helpu'r plant i fod yn rhan o'r gymuned. Er enghraifft, mynd am dro i barc lleol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ymweliadau gan wasanaethau lleol. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn werthfawr dros ben a bod eu plant yn mwynhau mynychu'r clwb a chwrdd â'u ffrindiau yn ystod y gwyliau.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Cofnodi rhagor o fanylion ar gyfer pob ymarfer tân.

**Meysydd i'w gwella a chymau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi ei gyflawni**

**Meysydd i'w gwella a chymau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim	
-----	--

Dyddiad Cyhoeddi 19/11/2021